

Ffermwyr fel Gweithredwyr Busnesau Bwyd

Nid pob ffermwr sy'n sylweddoli hyn, ond oddi ar 2006 rhoddwyd y teitl o Weithredwyr Busnesau Bwyd i ffermwyr, o dan Reoliadau Hylendid Bwyd yr UE.

Yn anffodus, nid newid mewn teitl swydd yn unig yw hyn. O dan y rheoliadau hyn, mae'n ofynnol i'r awdurdodau gyflwyno gweithdrefnau arolygu er mwyn gwneud yn siŵr fod Gweithredwyr Busnesau Bwyd, yn ffermwyr neu'n broseswyr bwyd, yn cydymffurfio â gofynion y rheoliadau.

Yn y sectorau cig eidion a chig oen, cafodd Swyddogion Safonau Masnach eu penodi gan Awdurdodau Lleol i ymgymryd â'r gwaith, a byddant yn dewis ffermydd i ymweld â nhw ar sail cyfres o asesiadau risg. Fodd bynnag, cytunwyd bod aelodau FAWL a chynlluniau gwarant fferm cydnabyddedig eraill yn llai tebygol o gael ymweliad.

Argymhellwyd y bydd un o bob pedair fferm heb warant, ar gyfartaledd, yn cael eu dewis ar hap ar gyfer ymweliad bob blwyddyn. Fodd bynnag, dim ond un o bob pump ar hugain o aelodau FAWL all ddisgwyl ymweliad.

Neges gan y Cadeirydd

Ers ymron i flwyddyn bellach mae aelodau FAWL yn yr ardaloedd Amcan 1 wedi bod yn gymwys i ddatblygu cynllunio iechyd anifeiliaid gyda'u milfeddyg. Cyflymu fu'r cynnydd yn nifer y cyfranogion oddi ar yr haf, ac mae rhai ffermwyr yn barod am ail ymweliad er mwyn adolygu'r sefyllfa. Dywed llawer o ffermwyr eu bod wedi manteisio fel canlyniad i'r broses gynllunio gyda'u milfeddyg a sefydlu strategaeth i ddelio â rhai problemau ar eu fferm. Mae 18 mis eto cyn y daw'r prosiect i ben ac rwy'n annog pob ffermwr sy'n gymwys, os nad yw eto wedi trafod cynllunio iechyd anifeiliaid, i gysylltu â'r milfeddyg cyn gynted â phosibl. Gwelir y manteision nid yn unig mewn gwell iechyd i'r anifeiliaid ond hefyd mewn gwell rheolaeth gyda gwell ffrwythlondeb a gwell patrymau lloia neu wyna, er enghraifft, sy'n golygu bod y cynnyrch yn well ac yn fwy effeithlon. Mae'n ddrwg iawn gan Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru na ellir defnyddio'r arian y tu allan i ardaloedd Amcan 1 yng Nghymru, ond rydym wrthi o hyd yn chwilio am arian arall a allai fod o gymorth. Os oes angen rhagor o fanylion arnoch, cofiwch gysylltu â'r Rheolwr Prosiect – Iestyn Tudur Jones ar 01970 636688.

Richard Howells, Cadeirydd
Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru

Mae Richard Howells, Cadeirydd Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru, a'i deulu yn cadw gwartheg cig eidion a defaid ar dir uchel a mynydd-dir ar Fferm Gelli, yn y Cymer ger Port Talbot.



Llyngyr yr Iau
– Bygythiad Cynyddol

– tudalennau 2–3



CLAFR
Y Broblem Flynyddol

– tudalen 4



**Safbwynt y
ffermwr**

– tudalen 5



Llai o afiechyd ymhlith lloï oherwydd ymgynghori ynglŷn â chynllunio iechyd

– tudalennau 6–7



Cynllunio Iechyd
– o Safbwynt Gogleddol

– tudalennau 8–9

Llwyddiant seminarau ...

Yn ystod yr hydref cynhaliodd Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru (WLBP) ddau seminar i filfeddygon sy'n ymwneud â'r Prosiect Iechyd Anifeiliaid ledled rhanbarth Amcan I. Mynychwyd y seminarau gan niferoedd eithriadol o uchel, ac roedd yr holl filfeddygon a oedd yn bresennol yn credu y dylai – ac y bydd – cynllunio iechyd anifeiliaid yn chwarae rhan bwysig yn nyfodol amaethyddiaeth gynaliadwy. Eu barn oedd y gallai hynny amlygu'r meysydd lle mae angen gwella iechyd anifeiliaid ynghyd â gwella cynnyrch.

Cafwyd anerchiadau amrywiol gan siaradwyr gwadd. Bu Arjen Brouwer sy'n gweithio yn Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol yn cyflwyno safbwynt y Cynulliad ynglŷn â datblygiadau'r dyfodol a'i ymrwymiad i gynllunio iechyd anifeiliaid. Bu Robert Anderson, milfeddyg o Kelso yng Ngororau'r Alban sydd wedi ymwneud â Chynllunio Iechyd anifeiliaid trwy'r Contractau Rheoli Tir yn yr Alban, yn trafod y manteision i ffermwyr yr Alban sy'n deillio o'r ymgynghori (gweler yr erthygl, 'Cynllunio Iechyd – o Safbwynt Gogleddol') a bu hefyd yn trafod pam mae ffrwythlondeb y tarw'n bwysig mewn buchesi sugno. Yna rhoddodd Agnes Winter o Brifysgol Lerpwl anerchiad ynglŷn â phwysigrwydd diagnosis cywir o gloffni mewn diadelloedd defaid, a bu Bruce Lawson, milfeddyg wedi ymddeol o Ddolgellau, yn tynnu sylw at wahanol agweddau ar gynllunio iechyd anifeiliaid Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru a sut mae'n credu y dylai milfeddygon ymdrin â'r ymgynghori â ffermwyr.

Nawr, ar ôl i flwyddyn gyntaf y prosiect ddod i ben, mae modd gweld pwrtrwm yn y problemau/materion iechyd mwyaf mynych y mae milfeddygon a ffermwyr yn tynnu sylw atynt. Mae'r erthyglau a ganlyn yn trafod rhai o'r materion sy'n cael blaenoriaeth yn aml gan y milfeddyg wrth ymgynghori â'r ffermwr.

Cofiwch, os ydych chi'n ffermio yn rhanbarth Amcan I yng Nghymru ac yn dymuno cael ymgynghoriad cynllunio iechyd anifeiliaid gyda'ch milfeddyg, byddwch cystal â chysylltu ag ef neu hi.



Y rhai fu'n cymryd rhan yn y seminarau milfeddygon, o'r chwith: Robert Anderson (Grŵp Milfeddygon Merlin yr Alban); Iestyn Tudur-Jones (WLBP); Arjen Brouwer (Swyddfa'r Prif Filfeddyg, Cynulliad Cymru); Moss Jones (WLBP); Agnes Winter (Prifysgol Lerpwl); Don Thomas (WLBP) a Bruce Lawson (milfeddyg wedi ymddeol o Ddolgellau).

Llyngyr yr

Un o'r prif bryderon ar bob fferm dda byw yw rheoli parasitiaid mewnol yn effeithiol, sy'n rhan hollbwysig o gynnal da byw iach a chynhyrchiol.

Yma yng Nghymru, sy'n un o ranbarthau gwlypaf y DG, fe ddylech chi fod yn ymwybodol o'r risgiau uchel ac effeithiau difrifol llyngyr yr iau.

Mewn termau economaidd, llyngyren yr iau yw un o'r parasitiaid mwyaf difrifol sy'n effeithio ar ein defaid a gwartheg. Gall gael effaith ddifrifol ar berfformiad anifeiliaid y fferm. Fe wyddom, er enghraifft, fod anifeiliaid llawn-dwf sy'n dioddef yn:

- llai ffrwythlon
- cynhyrchu llai o laeth.

Hefyd, mae yna sgil-ffeithiau megis


- bod y lloi a'r wŷn yn ysgafnach adeg eu geni
- eu bod yn ennill llai o bwysau
- bod lefel trosi porthiant yn llai effeithlon pan fyddant yn ifanc.

Ledled y DG, mae data a gasglwyd gan ladd-dai yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi dangos cynnydd o hyd yn nifer yr ieuau sy'n cael eu condemnio oherwydd fflwcc ac mae'n debygol nad yw hyn yn dangos ond cyfran fach o'r clefyd mewn gwirionedd. Yn sicr yn ein hardal ni, sef De Cymru, rydym wedi gweld llyngyr yr iau yn achosi clefydau clinigol ar ffermydd na fu'n dioddef o fflwcc o'r blaen.

Mae llyngyren yr iau (*Fasciola Hepatica*) yn barasit sy'n debyg i ddeilen fflat ac sydd i'w gael ym meinwe a dwythwell y bustl yr afu. Nid yw llyngyr yr iau yn benodol letyol. Byddant yn heintio gwartheg a defaid ar yr un fferm ac, yn wahanol i llyngyr y coludd, nid yw anifeiliaid yn tueddu i ddatblygu imiwnedd i'r parasitiaid. Mae hyn yn arbennig o wir am ddefaid lle mae'r anifeiliaid llawn-dwf yr un mor agored ag yw'r anifeiliaid ifanc.

Mae cylchred bywyd llyngyr yr iau yn gymhleth. Mae'n dibynnu ar letywr rhyngol, sef malwen y llaid, ac felly mae patrwm y clefyd yn dibynnu i raddau helaeth ar effaith y tymheredd a'r lleithder ar glychred bwyd y falwen.

Iau – Bygythiad Cynyddol



Afu yn dioddef o fflwcc (llun gan Asiantaeth Labordai Milfeddygol Caerfyrddin). Mae'r llun yn dangos llawer o lyngyr yr iau sydd wedi dod allan o ddwythellau'r bustl sy'n agored fel canlyniad i doriadau ar draws yr afu a gafodd ei ddifrodi.

Mae'r perygl o achosion difrifol o lyngyr yr iau yn cynyddu ar ôl gwanwynau a hafau gwlyb. Bydd rhagolygon rheolaidd yn cael eu cyhoeddi trwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol am Glefydau (NADIS) i'ch helpu chi i cynllunio rhaglenni rheoli.

Mae achosion **aciwt o'r clefyd (o'r hydref tan ganol y gaeaf)** yn cael eu hachosi pan fo niferoedd mawr o lyngyr ifainc yn tyllu gyda'i gilydd trwy'r afu ac yn achosi difrod difrifol. Mewn gwartheg, bydd yr achosion o'r clefyd yn digwydd tua 1–3 wythnos ar ôl yr heintiad mewn defaid ac 1–5 wythnos ar ôl yr heintiad mewn gwartheg. Gall heintiadau aciwt fod mor ddifrifol fel bod naill ai'r clefyd neu'r driniaeth yn achosi marwolaeth neu ddifrod na ellir ei wella. Er bod y clefyd aciwt yn digwydd yn anfyfych mewn gwartheg, mae nifer yr achosion aciwt mewn defaid wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r **clefyd cronig (o'r gaeaf i'r gwanwyn cynnar)** yn cael ei achosi'n bennaf gan weithgaredd bwydo'r llyngyr yn nythellau'r bustl. Bydd yr achosion yn digwydd 8 wythnos ar ôl archwilio defaid a 10 wythnos mewn gwartheg. Gall pob llyngyren lawn-dwf gymryd hyd at 0.5ml o waed y dydd a gall ddodwy hyd at 50,000 o wyau'r dydd! Fflwcc cronig yw'r math mwyaf cyffredin o'r clefyd a welwn, ac mae'n arwain at symptomau fel anemia, colli cyflwr a genau chwyddedig.

Cofiwch y gall hyd yn oed niferoedd bach o lyngyr yr iau achosi clefyd is-glinigol. Mae fflwcc is-glinigol yn arbennig o bwysig mewn gwartheg am fod nifer y llyngyr yn yr afu'n gorfod bod

“Daeth ymwrthedd i fflwccleiddiaid yn fwy cyffredin yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'n hanfodol cael cyfundrefn ddsio briodol.”

yn eithaf uchel cyn i'r arwyddion clinigol ymddangos – ac erbyn hynny fe fydd y colledion cynnyrch yn sylweddol.

Mae'r diagnosis o lyngyr yr iau yn seiliedig ar arwyddion clinigol, darganfod wyau llyngyr ar ysgarthion a chynnydd yn ensymau'r afu. Hyd yn oed os nad oes gennych hanes o heintiad llyngyr yr iau ar eich fferm, byddai'n werth sgrinio'ch anifeiliaid, gan gofio pa mor ofidus yw'r clefyd is-glinigol a amlinellir uchod.

Yng Nghymru, gan gofio faint o ddaear gwlyb sydd gennym, yn anaml y bydd osgoi malwod yn ddewisiad ymarferol. Rhaid i ni felly ddibynnu ar ddefnyddio fflwccleiddiaid ar adegau strategol o'r flwyddyn er mwyn rheoli llyngyr yr iau ar ein ffermydd.

Fel milfeddyg mewn practis defaid a chig eidion, mae'r cyllid gan Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru i gynllunio iechyd da byw wedi rhoi'r cyfle delfrydol i ni eistedd i lawr gyda'n cleientiaid FAWL i gynllunio'u strategaethau iechyd anifeiliaid. Dylai pob uned dda byw gael rhaglen i reoli llyngyr yr iau gyda chymorth y milfeddyg a dylai hon gynnwys strategaeth gwarantyn effeithiol ar gyfer unrhyw dda byw sy'n cael eu prynu ac a all fod yn dod o ffermydd wedi'u heintio â'r clefyd.

Daeth ymwrthedd i fflwccleiddiaid yn fwy cyffredin yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'n hanfodol cael cyfundrefn ddsio briodol. Erbyn hyn mae yna nifer o fflwccleiddiaid ar gael – naill ai i'w defnyddio ar eu pennau eu hun neu wedi'u cyfuno â llyngyrleiddiaid. Mae'n bwysig eich bod yn defnyddio'r cynnyrch iawn i'ch anifeiliaid ar yr adeg briodol, a byddwn wastad yn cynghori cleientiaid i gael cymorth annibynnol gan y milfeddyg os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â pha gynnyrch i'w ddefnyddio.



Enillodd Gareth Mulligan ei gymwysterau ym Mhrifysgol Bryste yn 1994. Mae wedi bod yn gweithio mewn practis cymysg byth oddi ar hynny, ac yn ystod yr 11 mlynedd diwethaf mae wedi bod yng Nghanolfan Filfeddygol Afon, Castell-nedd. Mae Gareth yn rhedeg ochr anifeiliaid fferm y busnes sy'n seiliedig y bennaf ar unedau teuluol buched sugno a defaid mynydd.

CLAFR – Y Broblem Flynyddol



Yn ystod yr Hydref wrth iddi oeri cafwyd adroddiadau yn son am grafu ymysg ein diadelloedd. Yn anffodus mae'r darlun yma yn eitha cyffredin bellach ac yn un dyrys iawn i'w datrys. Rwy'n siwr bod llawer ohonoch yn

ymwybodol o gyfarfodydd sydd yn cael eu cynnal mewn llawer man yn ystod y gaeaf i godi ymwybyddiaeth o'r sefyllfa. Mae'r Cynulliad trwy'r strategaeth iechyd a lles anifeiliaid yn cefnogi'r broses yma er mwyn lleihau'r broblem.

Ein gobaith yw bod modd defnyddio'r cynlluniau iechyd hefyd nid yn unig i godi ymwybyddiaeth o'r sefyllfa ond i gynghori'n adeiladol fel bod cyfle i waredu'r crafu o'n diadelloedd. Yn ol y milfeddyg Iwan Parry o Ddolgellau, "Mae'r cyfle yn codi drwy'r cynlluniau iechyd i gryfhau y berthynas rhwng y milfeddyg ai gleient, ac yn rhoi amser i drafod problemau megis clawr yn benodol."

Rhaid cofio bod modd o greu strategaeth briodol i waredu'r afiechyd yma. Rydym wedi llwyddo yn y gorffennol ac er bod pethau'n wahanol erbyn hyn e.e diffyg rheolau statudol, ymlediad y clwy yn wahanol o fewn ein diadelloedd; mae'n rhaid ymgymraedd yn uchel a cheisio gwaredu'r wlad unwaith eto o'r clawr.

"Y peth sylfaenol o fewn unrhyw strategaeth yw cael gwybodaeth gywir o beth yn union sydd yn achosu'r crafu." meddai Iwan Parry "ac yn hyn o beth mae cwarantein sydyn yn hanfodol."

O ddarganfod presenoldeb Psoroptes Ovis yn y ddiadell rhaid trin yr holl ddefaid gan ddilyn y cyfarwyddiadau trwyddedig y cyffuriau i'r lythyren. Mae'n bwysig hefyd yn ol y milfeddyg sicrhau nad oes modd i unrhyw ddafad ddiethr, a allasai fod yn heintus, ymuno a'r ddiadell sydd wedi ei thrin. Yn hyn o beth mae cydweithrediad a'r cymdogion yn holl bwysig ac yn

hanfodol i lwyddiant o waredu'r clwy. Dywedodd Iwan Parry "mae bioddogelwch yn ystyriaeth sylfaenol i'r strategaeth o waredu'r clwy. Rhaid cofio bod unrhyw anifail newydd sydd yn dod ar y fferm a'r gallu i heintio'r ddiadell, o'r herwydd mae'n bwysig eu trin rhag y clawr yn ogystal ag afiechydon eraill yn ystod y cyfnod mewn cwarantîn." Mae'n amlwg y gall y cynlluniau iechyd o'u defnyddio i'w llawn potensial fod yn gonglfeini i strategaeth briodol o waredu'r clawr o'n diadelloedd yma yng Nghymru.



Mae Iwan Parry wedi bod yn filfeddyg anifeiliaid mawr yn Nolgellau am 20 mlynedd ac mae'n aelod o Bwyllgor Strategol Iechyd a Lles Anifeiliaid Cynulliad Cymru ers ugain mlynedd. Yn ddiweddar cafodd ei benodi i gynrychioli Cymru ar Gyngor Iechyd a Lles Gwartheg y DG a gafodd ei ffurfio'n ddiweddar. Fe'i penodwyd yn Gydyrnaith y Cymdeithasau Amaethyddol Brenhinol am ei waith ar ffrwythlondeb mewn buchesi sugno. Mae gan Iwan brofiad personol ac ymarferol o lunio cynlluniau penodol ar gyfer grwpiau o ffermwyr er mwyn cael gwared ar y clawr. Mae hefyd yn ysgrifennu am faterion ffermio organig sy'n berthynol i les anifeiliaid. Yn ogystal, mae Iwan yn cyflwyno eitemau ar raglen Ffermio ar S4C.



COFRESTRWCH ERBYN 15 MAI

Mae'r rheoliadau newydd sy'n ymwneud â gwastraff amaethyddol yn pennu a allwch chi losgi, claddu, storio, defnyddio eich gwastraff ar y fferm neu ei anfon i rywle arall.

Daeth y rheoliadau hyn i rym ar 15 Mai 2006. Erbyn hyn dylech fod wedi rhoi'r gorau i ollwng gwastraff ar eich fferm. Dylech hefyd fod wedi rhoi'r gorau i losgi plastig ac unrhyw ddefnydd arall sy'n achosi llygredd a/neu niwed. Cofiwch eich Dyletswydd Gofal pan fyddwch yn storio neu'n trosglwyddo'ch gwastraff i rywun arall.

Mae gennych tan 15 Mai 2007 i gydymffurfio â'r rheolau newydd a chofrestru ar gyfer unrhyw eithriadau'n ymwneud â gwastraff amaethyddol. Mae cofrestru eithriadau gwastraff amaethyddol **AM DDIM** a dim ond unwaith sydd raid cofrestru'r rhan fwyaf. I gael rhagor o fanylion, ewch i www.environment-agency.gov.uk neu cysylltwch ag Amgylchedd Cymru ar 08708 506 506.

SAFBWYNT Y FFERMWR

Mae Richard Tudor yn ffermio yng Nglanystwyth, Cwm Ystwyth. Mae'r fferm yn cynnwys 500 erw o dir isel ac uchel sy'n gaeedig ac wedi'i wella. Mae'n cynnal diadell o 1800 o famogiaid croesfrid, 200 o ŵyn benyw a 80 o wartheg stôr. Mae perthynas Richard â'i filfeddyg, Ystwyth Vets, Aberystwyth, wastad wedi bod yn un dda. Mae o blaid deialog mynych a rhannu gwybodaeth rhwng milfeddygon a ffermwyr er mwyn trafod materion yn ymwneud ag iechyd a chynnyrch.

Trwy gyfrwng yr ymgynghoriad cynllun iechyd, mae Richard wedi penderfynu rhoi blaenoriaeth i dri mater yr hoffai eu gwella ar ei uned, sef braenedd y traed, clefyd y cymalau mewn ŵyn ifainc a cryptosboridia.

"Pan glywais gyntaf am yr adolygiad hwn, meddyliais ei fod yn enghraifft arall o fiwrocratiaeth ddibwrpas, ond ar ôl ymrwymo fy hun iddo, gallaf weld yr holl fanteision.

Y fantais bwysicaf yw dangos i'n cwsmeriaid – y cyhoedd – ein bod yn cymryd iechyd a lles anifeiliaid o ddifri, a thrwy gael y milfeddygon i'n cynghori ynglŷn â'n harferion amaethu, ni all ond gwella'n delwedd. Mae'n golygu ein bod un cam ar y blaen i'r hyn sy'n cystadlu yn ein herbyn - gan gynnwys mewnforion.

Trwy drafod gwahanol bynciau ffermio â'ch milfeddyg rydych chi hefyd yn elwa ar y cyfoeth o arbenigedd sydd ganddo ef neu hi, ac mae modd i'r milfeddyg eich cynghori ynglŷn ag unrhyw wendidau yn eich gweithgareddau o ddydd i ddydd. Bydd y milfeddyg hefyd yn gallu gweld beth sy'n llwyddo neu'n methu yn eich ardal chi – ac felly mae yna fanteision i'r ddau ohonoch. Ni all yr adolygiad hwn ond gwneud lles i'n diwydiant."



Richard Tudor

Llai o afiechyd ymhlith lloi oherwydd ymgynghori ynglŷn â chynllunio iechyd

Mae menter cynllunio iechyd Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru (WLBP) wedi'n galluogi ni, filfeddygon, i gymryd cam yn ôl o'r gwaith o ddydd i ddydd a gwaith brys ar ffermydd er mwyn treulio ychydig o amser yn dadansoddi'r problemau sydd fwyaf cyffredin a chostus yn nhermau lles anifeiliaid a phroffidioldeb y fferm.

Mae'r ymweliadau cynllunio iechyd a wnaed gennym hyd yma wedi cadarnhau taw afiechyd ymhlith y lloi yw'r brif broblem iechyd sy'n effeithio ar y rhan fwyaf o anifeiliaid unedau cig eidion sugno a bwced sy'n deillio o fuchesi godro. Nid yw'n syndod taw'r prif glefydau lloi yw'r dolur rhydd mewn lloi ifainc, niwmonia – ac i raddau llai heintiadau bogail (gwenwyniad gwaed, clefyd y cymalau a chrawniadau bogail).

Mewn erthygl fer fel hon nid oes modd canolbwyntio ar broblemau penodol, achosion penodol a mesurau rheoli a ddylai gael eu teilwra ar gyfer pob fferm a'u nodi'n fanwl yn y Cynllun Iechyd. Fe fyddaf, serch hynny, yn manteisio ar y cyfle hwn i dynnu sylw at rai diffygion cyffredinol ynglŷn â rheoli a welwyd ar nifer o ffermydd. Os unionir y diffygion hyn dylem fynd dipyn o ffordd tuag at leihau nifer y lloi sy'n clafychu.

Rheoli Colostrwm

Bydd lloi'n cael eu geni â lefelau isel iawn o wrthfotigau, hyd yn oed rhag yr afiechydion mwyaf cyffredin. A bydd y cymeriant cyntaf o Golostrwm yn darparu rhan helaeth o'u hymwrthedd ar gyfer yr ychydig fisoedd cyntaf.

Mae gallu coluddyn y llo i amsugno gwrthfotigau yn dirywio'n gyflym iawn o 100% adeg genedigaeth i 66% yn chwe awr oed i 11% yn 24 awr oed.

Yn ddelfrydol, dylai pob llo gael 3 litr o Golostrwm o fewn dwy awr i'w eni



Oddi ar 1989, mae Gwyn Jones wedi bod yn bartner ym mhraetis Milfeddygol Wern, sydd â deuddeg o filfeddygon yn Abergele, y Bala, Dinbych a Rhuthun. Mae'r practis yn canolbwyntio ar feddyginiaeth anifeiliaid fferm, gyda diddordeb cryf mewn moddion ataliol ar gyfer y ddiadell a'r fuchesi, a thechnolegau bridio ar gyfer gwartheg a defaid. Mae'r practis yn rhedeg fferm fach â gwartheg cig eidion croesfrid a gwartheg godro Cochion Sweden pedigri ynghyd â diadell o gant o ddefaid croesfrid sy'n achrededig o ran maedi visna i ddarparu hyrddod ymlid a derbynwyr embryo â statws iechyd uchel. Daeth Gwyn yn arweinydd tîm trosglwyddo embryo yn 1995 a derbyniodd y diploma mewn atgenhedliad gwartheg gan Brifysgol Lerpwl yn 2001. Mae ei ddiddordebau penodol yn cynnwys meddyginiaeth ataliol a chynnyrch ar gyfer Anifeiliaid Fferm, llawdriniaeth anifeiliaid mawr a Throsglwyddo Embryonau defaid a gwartheg.

neu o leiaf o fewn 6 awr. Mae modd sicrhau hyn fel a ganlyn:

- Cadw'r fuwch sydd newydd roi genedigaeth yn dawel a gwneud yn siŵr fod y llo'n sugno pob teth yn llwyr.
- Godro'r fuwch â llaw a bwydo'r colostrwm trwy diwb stumog: mae yna fantais o wneud hyn oherwydd mae modd ei wneud yn syth ar ôl yr enedigaeth, pan fo'r fuwch yn dal yn dawel a chyn i'r llo godi ar ei draed. Camgymeriad cyffredin, fodd

bynna, yw bwydo lloi newydd anedig â thiwb stumog a gafodd ei ddefnyddio cyn hynny i ddosio llo sy'n ysgothi, ac felly trosglwyddo dos dda o rotafirws, cryptosporidia, E coli, etc i'r llo newydd.

- Bod â cholostrwm yn barod, ar ôl iddo gael ei rewio'n gyfrannau 3 litr a'i ddadmer wedyn pan fo'r fuwch ar fin lloia. Bydd gan rai buchod cig, yn enwedig heffrod sy'n lloia am y tro cyntaf, ond tua litr o golostrwm

ac felly bydd angen ychwanegu 2 litr arall o golostrwm rhewedig wedi'i ddadmer. Mae gan lawer o ffermydd godro golostrwm o ansawdd da nad oes mo'i angen arnynt. Mae modd rhewi hwn ac, yn ein barn ni, mae'n well o lawer o ran gwrthgyrff ac yn rhatach na'r colostrwm powdwr. Fodd bynnag, mae trosglwyddo colostrwm rhwng ffermydd yn golygu risg sylweddol o drosglwyddo clefydau fel TB, clefyd Johnne, Salmonela, Neospora, etc ac mae angen gwrthbwysor manteision o ran iechyd y lloi â'r risgiau hyn, yn enwedig mewn buchesi caeedig sy'n magu eu hanifeiliaid cyfnewid eu hunain.

Cyfleusterau Iloia

Dylai lloi gael eu geni mewn lle glân a sych ac yn bendan ni ddylai fod lle cafodd llo ag afiechyd ei gadw cyn hynny. Yn aml byddwn yn gweld llociau lloia, yn enwedig ar ffermydd godro, sy'n cael eu defnyddio i gadw buchod sy'n gloff neu'n dioddef o afiechyd. Cafodd traed llawer o fuchod cloff eu heintio ag *A pyogenes* neu *F necrophorum* – sef heintiau sy'n chwilio am gyfle i heintio bogail llo newydd anedig; fe allai buchod sâl fod yn dioddef o Salmonela, clefyd Johnne, Rhinotracheitis heintus y gwartheg (IBR) a bydd pob un yn heintio lloi.

Fe fyddai cynllunio'r gawell loia ddelfrydol yn destun erthygl ei hun, ond mae ein hymweliadau cynllunio iechyd wedi dangos taw dim ond ychydig iawn o ffermydd sydd â chewyll lloia pwrpasol ac mae'n gwneud i rywun feddwl y gellid datrys llawer o broblemau iechyd (ynghyd â rhai problemau clefyd Johnne) ar unwaith mewn llawer o fuchesi sy'n lloia yn y gwanwyn trwy loia yn yr awyr agored ym mis Mai yn hytrach nag o dan do mewn cewyll lloia gorlwythog ym misoedd Mawrth ac Ebrill.

Cymysgu'r Grwpiau Oedran

Rhywbeth arall a welwyd gennym ar lawer o ffermydd yw cymysgu lloi o wahanol oed, gan ganiatáu i'r rhai iau

ddal heintiau coluddol a resbiradol oddi wrth loi hyn sy'n gallu ymdopi'n well.

Mewn system fagu artiffisial mae modd atal hyn trwy wneud yn siŵr fod lloi'n cael eu magu mewn grwpiau, a gofalu bod y sied yn cael ei diheintio rhwng pob grŵp.

Mewn system sugno, y ffordd orau o wneud hyn yw cael patrwm lloia tyn. Yn ddelfrydol dylai'r holl loia

ddigwydd dros gyfnod o 10 wythnos yn unig. Mae cyflawni a chynnal patrwm lloia tyn, ynghyd â'r effeithiau ar y fuwch sugno o ran maeth, ffrwythlondeb a gwahanol heintiadau, yn faes arall lle gall cynllunio iechyd ymlaen llaw ddylanwadu'n fuan ar broffidioldeb y fferm.

Gwyn L Jones
Milfeddygon y Wern
Rhuthun

Cymhelliad Iach



Yn y llun mae Philip Jones, Fferm Gables, Llandyrnog, Dinbych. Yn dilyn ymgynghoriad â'i filfeddyg, darganfu ei gynllun iechyd anifeiliaid fod angen sicrhau bod pob llo yn cael 3 litr o golostrwm, fel arfer o fewn dwy awr ond bob tro o fewn 6 awr i'w enedigaeth.

Mae hyn, ynghyd â diheintio'n rheolaidd rhwng pob grŵp o loi, wedi lleihau nifer yr achosion o ysgothi o tua 10% i lai na 2%. Mae Philip hefyd wedi sylwi ar sgil-fantais, sef gwell imiwnedd ymhlith y lloi sy'n golygu llai o broblemau fel niwmonia ymhlith y lloi hyn.

Ers iddo ddechrau ar y gyfundrefn hon o fwydo colostrwm, rhoddwyd y gorau i frechu rhag Rotafirws yn Gables heb unrhyw broblemau hysbys. (Mae Gwyn yn credu, fodd bynnag, y dylid dal i frechu heffrod sy'n lloia am y tro cyntaf rhag Rotafirws).

Cynllunio Iechyd – o Safbwy

Cymerodd Cynllunio Iechyd ar ffermydd yn yr Alban gam pwysig ymlaen yn 2005 pan ddaeth y Rhaglen Rheoli Iechyd a Lles Anifeiliaid (AHWMP) yn un o'r dewisiadau yn y Contractau Rheoli Tir newydd. Golygodd y gallai ffermwyr ddewis cynllunio iechyd â chymhorthdal fel elfen o'u Taliad Sengl. Hyd yma mae tua 4,800 o gynhyrchwyr wedi dewis gwneud hyn, sef tua 23% o'r holl fusnesau IACS yn yr Alban.

Adolygu cynnydd uchafbwyntiau

Mae'r AHWMP yn yr Alban yn cynnwys dwy brif elfen:

- Cynllun iechyd syml wedi'i lunio gyda'r milfeddyg ac sy'n cynnwys cyfundrefnau triniaeth a strategaeth ar gyfer defnyddio brechlynnau ac atal clefydau.
- Casglu data am berfformiad a chlefydau, dadansoddi a sefydlu cynllun gweithredu i fesur perfformiad ac adolygu cynnydd.



Mae'r ariannu yn weddol syml. Bydd ffermwyr yn hawlio'r gost berthnasol pan allant brofi bod y cynllun ar waith. Bydd y milfeddyg lleol yn codi tâl am lunio'r cynllun. Mae'r prisiau'n amrywio, ond maent o amgylch £100–150 am gynllun sy'n llwyr gydymffurfio, a thua hanner y swm hwnnw ar gyfer yr adolygiad blynyddol gorfodol. Hyd yma mae gan ein practis ni 112 o ffermwyr cyfrannog, allan o 360 o gleientiaid amaethyddol.

Llugoer fu'r brwdfrydedd i ddechrau. Teimlai'r ffermwyr eu bod dan bwysau gan Weithrediaeth yr Alban i gynllunio iechyd er mwyn sicrhau cymhorthdal. Fodd bynnag, rydym bellach wrthi'n cynnal adolygiadau blynyddol ac mae'n amlwg fod y ffermydd hynny â chynllun iechyd cadarn wedi cynyddu cynnyrch, mae yna lai o achosion o glefydau ac mae defnydd mwy effeithiol o lawer yn cael ei wneud o

“Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth na fydd Cadw Cofnodion a Meincnodi yn elfen allweddol o gynhyrchu da byw yn llwyddiannus a phroffidiol. Mae ffermwyr yr Alban wedi sylweddoli'r manteision i'w busnesau yn sgil cynllunio iechyd, ac maent erbyn hyn yn dechrau defnyddio'u milfeddyg eu hunain yn ymgynghorydd iechyd a all wella'u ffermydd yn sylweddol a'u gwneud yn broffidiol.”

frechlynnau a meddyginiaethau ataliol eraill megis gwrthlyngryddion. Yn ogystal, bydd sefydlu cynllun effeithiol i reoli clefydau (bioddiogelwch) ar gyfer prynu anifeiliaid cyfnewid yn lleihau nifer yr achosion o glefydau megis y clafr, braenedd y traed difrifol, llyngyr ymwrthol ac Ysgothi Firol Gwartheg (BVD). Daw nifer o faterion diddorol yn ymwneud â chlefydau a rheolaeth i'r amlwg yn y sesiynau cynllunio:

- 630 o famogiaid mewn diadell o 700 o famogiaid tir uchel yn wyna yn ystod y 21 diwrnod cyntaf, a'r gweddill yn ystod y 14 diwrnod nesaf. Yr ŵyn cyntaf yn cael eu gwerthu ddechrau Gorffennaf, ond ŵyn yn dal heb eu gwerthu ym mis Chwefror. Pam? Gallai ymwrthedd i wrthlyngryddion fod yn gyfrifol. Fel rhan o'r gynllun gweithredu byddwn yn ymchwilio i hyn yn yr haf.
- Mewn buches gig eidion â 120 o fuchod, dim ond 15% o'r buched wnaeth loia yn ystod tair wythnos gyntaf y cyfnod lloia. Mae hyn yn golygu bod pwysau'r lloia yn anghyson, ac ar y fferm hon cafwyd problemau difrifol oherwydd niwmonia adeg rhoi'r anifeiliaid dan do. Yr achos tebygol yw rheolaeth wael o'r teirw, a bydd sylw'n cael ei roi i hyn cyn tarwa.

Meincnodi

Gyda'r enghreifftiau uchod, dim ond cofnodion a dadansoddiad syml gan y tîm milfeddyg/ffermwr sydd ei angen er mwyn darganfod problemau a gwneud rhywbeth yn eu cylch.

Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth na fydd Cadw Cofnodion a Meincnodi yn elfen allweddol o gynhyrchu da byw yn llwyddiannus a phroffidiol. Mae ffermwyr yr Alban wedi sylweddoli'r manteision i'w busnesau yn sgil cynllunio iechyd, ac maent erbyn hyn yn dechrau defnyddio'u milfeddyg

nt Gogleddol

eu hunain yn ymgynghorydd iechyd a all wella'u ffermydd yn sylweddol a'u gwneud yn broffidiol.

Bydd milfeddygon sy'n ymroddgar i filfeddygaeth da byw yn ymwybodol o'r duedd tuag at unedau amaethyddol mwy o faint a'r lleihad yn nifer yr ymweliadau i ymgymryd â thasgau rheolaidd syml. Rydym wedi darganfod os ydym i barhau i chwarae rhan rhaid i ni ymgymryd â chynllunio iechyd a chymhwyso ein hunain ar gyfer darparu cyngor ynglŷn â rheoli iechyd a chynhyrchedd. Mae hynny'n rhoi cymaint o foddhad ond mae hefyd yn golygu defnyddio'r un cymaint o'n harbenigedd ac yn caniatáu i ni barhau wrth galon ein busnes da byw.

Mae'r cyllid a gafwyd gan Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru yn gaffaeliad mawr sy'n caniatáu milfeddygon a ffermwyr i ddechrau cynllunio'n effeithiol ar gyfer dyfodol busnesau'r naill a'r llall. Mae ein profiadau yn yr Alban yn dangos yn glir werth a manteision rhoi'r cyfle i ffermwyr gael cymhorthdal i ddefnyddio'u milfeddygon i baratoi a gweithredu cynlluniau iechyd i dynnu sylw at, a dadansoddi, problemau iechyd a lles ar eu ffermydd eu hunain a chynnig atebion. Fe fyddwn yn annog ffermwyr a milfeddygon i fanteisio ar y cyfle euraid hwn i roi hwb ymlaen i ffermio a milfeddygaeth da byw yng Nghymru.

Robert Anderson
Grŵp Milfeddygaeth Merlin
Kelso



Mae Robert Anderson wedi treulio'r 20 mlynedd diwethaf yn gweithio yn Kelso yng Ngororau'r Alban. Mae'n gweithio bron yn gyfan gwbl gyda gwartheg, yn bennaf gwartheg cig, a rhai defaid. Ar un adeg roedd Robert yn filfeddyg anifeiliaid bach ond roedd am gael mwy o gysylltiad â ffermwyr. Ei brif ddi-ddordebau yw bridio, rheoli teirw mewn buchesi sugno a mabwysiadu cynlluniau iechyd. Mae'r Gororau yn wledig iawn ac yn dibynnu'n drwm ar amaethyddiaeth a thwristiaeth am economi parhaus. Ym mhreactis Robert mae 13 o filfeddygon yn gweithio o dair meddygfa, pob un tua 18 milltir oddi wrth ei gilydd.

Rheoliadau Cludiant Newydd yr UE

Daeth rheoliadau newydd yn ymwneud â lles anifeiliaid wrth gael eu cludo i rym ar 5 Ionawr 2007. Fodd bynnag, os ydych chi'n cludo anifeiliaid dros bellter sy'n llai na 65 km, neu 40 milltir, rydych chi'n cael eich eithrio rhag llawer o gofynion y rheoliadau hyn. Ar y llaw arall, os ydych chi'n cludo da byw dros 65 km mae angen Caniatâd Cludiant arnoch. Mae'n bosibl eich bod o'r farn nad oes angen un, ond os ydych chi'n prynu neu'n gwerthu mamogiaid, er enghraifft, gall y bydd y farchnad ymhellach o'ch fferm nag ydych chi'n ei dybio. Os na chwsoch Ganiatâd Cludiant, yna dylech gael un cyn gynted â phosibl. Mae'n golygu llenwi ffurflen, ond mae'r Caniatâd yn para am bum mlynedd. Mae ffurflenni ac esboniadau pellach ar gael drwy ffonio'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yng Nghaerwrangon ar 0845 603 8395. Mae siaradwr Cymraeg ar gael os ydych chi'n dymuno trafod y mater drwy gyfrwng yr iaith honno.

Mae'r rheolau ynglŷn â chludo anifeiliaid dros 65 km a dros wyth awr yn fwy llethol, ond mae'n annhebygol y bydd y rhain yn berthnasol i lawer o ffermwyr. Serch hynny, os byddwch chi'n cludo anifeiliaid pedigri o Dde Orllewin Cymru dyweder i arwerthiannau yn yr Alban, ac os yw'r daith yn hwy nag wyth awr, yna bydd angen Caniatâd Taith Hir, ac mae hynny'n golygu talu am archwiliad o'r cerbyd. Bydd angen i chi gysylltu â'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yng Nghaerwrangon ar y rhif ffôn uchod.

Yn olaf, mae'n ofynnol i bob ffermwr wneud yn siŵr fod anifeiliaid yn holliach ar gyfer teithio, waeth os ydynt yn cael eu cludo dros bellter o lai na 65 km neu fwy. Mae manylion pellach ar gael ar 0845 603 8395, un o wefannau DEFRA neu teipiwch 2005 Welfare Transport EU i mewn i beiriant chwilio cyfrifiadurol fel Google.

Ysbaid o 12 mis rhwng dau bigiad atgyfnerthu

Rhaid i frechiadau gwartheg a defaid ddilyn y rheolau a ddiffinnir gan y drwydded. Gall pawb ddarllen y rheolau hyn ar y daflen sydd gyda'r brechlynnau. Y pwynt yw gwneud yn siŵr fod y cyffur yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel ac effeithlon. Trwy beidio â pharchu'r rheolau rydych chi'n gwastraffu arian ac yn gadael y ddiadell/ y fuches yn agored i glefydau. Felly, ydych chi'n siŵr o'ch cynllun brechu?

Ynglŷn â'r ddiadell, mae'r rhan fwyaf o ffermwyr eisoes yn rhoi'r brechiad cyntaf ynghyd â dau bigiad a mis rhyngddynt a phigiad atgyfnerthu blynyddol. Serch hynny, yn rhy aml fe welwn dros ddeuddeg mis yn mynd



heibio rhwng yr ail bigiad i'r ŵyn benyw a'r pigiad cyn-wyna blynyddol.

Er enghraifft, nid yw ŵyn benyw a frechwyd yn saith mis oed yn yr hydref ac a fydd yn wyna pan fydd ganddynti ddau ddant, yn gallu aros i gael y pigiad cyn-wyna blynyddol a fydd yn digwydd ymron i flwyddyn a hanner yn ddiweddarach. Mae angen pigiad ar yr ŵyn benyw hyn yn gynharach. Efallai taw'r amser gorau yw yn y gwanwyn, ar ôl pori dros y gaeaf.

Y dewis yw dechrau eu brechu pan fyddwch chi'n rhoi'r atgyfnerthydd cyn-wyna blynyddol. Os felly, fe fyddwch chi'n colli ychydig fisoedd o amddifyniad.

Rhaid gadael deuddeg mis rhwng y ddau bigiad atgyfnerthu wrth frechu gwartheg hefyd.

Dr J.-P. Mocho MRCVS
Milfeddygfa'r Nant
Llanrwst



Mae Jean-Philippe Mocho wedi bod yn gweithio i Filfeddygfa'r Nant yn Llanrwst am flwyddyn fel milfeddyg anifeiliaid mawr, sydd wedi rhoi cyfle iddo ymwneud yn ymarferol â chyflwyno'r Cynllun Iechyd Buches yn yr ardal. Cyn hynny enillodd ei ddoethuriaeth am waith ymchwil ynglŷn â chynhyrchu defaid. Er mwyn dilyn ei ddiddordebau mewn ffermio defaid, gadawodd Wlad y Basg yn Ffrainc a'i mamogaid godro i ddod i Ogledd Cymru. Mae ei brofiad yn Ffrainc yn cynnwys gweithio gyda gwartheg pedigri megis Blonde d'Aquitaine, Charolais, Limousin a Salers.

Beth yw'ch diagnosis chi?

Yn ystod seminarau'r hydref, gofynnwyd i filfeddygon adnabod amryw o broblemau cloffni mewn diadelloedd defaid a llunio cynllun gweithredu ynglŷn â sut i wella'r sefyllfa ar ffermydd. Dyma ychydig o'r problemau traed y gofynnwyd iddynt am eu diagnosis. Rhwch brawf ar eich gwybodaeth. Mae'r atebion isod.



Lluniau wedi eu ail gynhyrchu drwy ganiatad Dr Agnes Winter, Pennaeth Uwch Adran Milfeddygaeth a Gwyddor Clinigol, Prifysgol Lerpwl.